



Gwartheg Hynafol Cymru - yr enw newydd ar Restr Wyllo'r RBST

Gyda chyhoeddi Rhestr Wyllo 2025 RBST daeth y cyhoeddiad am gynnwys Gwartheg Hynafol Cymru (GHC) am y tro cyntaf. Mae'r ffaith bod y brîd wedi mynd yn syth i'r categori Blaenoriaeth yn adlewyrchu nid yn unig niferoedd isel iawn y brîd ond hefyd y ffaith bod gan y brîd dosbarthiad daearyddol cul a bod gostyngiad i'w weld yn nifer y genedigaethau newydd sydd wedi'u cofrestru.

Mae'r ffaith bod y brîd wedi goroesi o gwbl yn ganlyniad i ymroddiad nifer fach o ffermwyr ymroddedig yn y 1970au a adnabu'r gwartheg brodorol hyn, nad oeddent yn ddu, yn bodoli ar ucheldiroedd Cymru. Aethant ymlaen i ffurfio Cymdeithas Gwartheg Hynafol Cymru ym 1981.

Heddiw, dim ond pedair prif fuches rhagweithiol sydd ond mae'r Gymdeithas yn gobeithio y bydd cydnabyddiaeth gan yr RBST yn ychwanegu at ei hymdrechion i weld mwy o fuchesi GHC yn cael eu sefydlu, dros ardal ehangach a chan fridwyr newydd.

Meddai Mike Lewis, Cadeirydd presennol y Gymdeithas: "Dim ond troednodyn bach ydw i, ynghyd â chyd-fridwyr a chefnogwyr, yn stori Gwartheg Hynafol Cymru. Stori sy'n mynd yn ôl nid yn unig canrifoedd, ond dros fileniwm. Maent yn rhan o chwedlau, llên gwerin a chwedlau Cymreig ac felly mae ganddynt le arbennig iawn yn ein hunaniaeth genedlaethol. Fel Cadeirydd y Gymdeithas, roeddwn wrth fy modd pan gawsom gydnabyddiaeth gan RBST".


"Mae ein niferoedd bridio yn isel iawn ond gyda chymorth RBST rwy'n gwybod y bydd y brîd hanesyddol hwn yn derbyn y gefnogaeth a'r gydnabyddiaeth sydd ei angen arno i oroesi a thyfu. Rwy'n falch o ddweud, yn yr amser byr ein bod wedi bod yn rhan o'r teulu RBST, mae datblygiadau cadarnhaol yn ein rhaglenni bridio a'n strategaethau datblygu eisoes yn digwydd. Rwy'n credu bod dyfodol y brîd hwn yn mynd i fod yn eithaf cyffrous, a phwy a wŷr, efallai y bydd y stori hon hefyd yn rhan o hanes a chwedl y gwartheg mewn mileniwm arall."

Er mai dim ond pedair prif fuches sydd ar hyn o bryd yn cynrychioli'r brîd, rhyngddynt, mae'r pedair yn dangos nodweddion amrywiol GHC a'r potensial i integreiddio'r brîd hynafol hwn i systemau ffermio modern. Yn dilyn mae'r bridwyr yn adrodd eu straeon eu hunain:

Mike Lewis



CATTLE



The Mapledraig Herd



Helen Upson and Snowdrop. Photo by Emma Douglas.

Buches Mapledraig – hanes byw yn Sir Faesyfed - Mike Lewis

Sefydlwyd Buches Mapledraig yn 2007 yn Nyffryn Ithon, Sir Faesyfed. Dyma fy nghyfraniad i a'm gwraig, Liz, i barhad stori Gwartheg Hynafol Cymru.

Mae fy nheulu fy hun wedi bod yn ffermio'r 150 erw hyn am y 120 mlynedd diwethaf ac yn nyffryn Ithon am lawer hirach. Rydym bob amser wedi bod yn ffermwyr gwartheg ac wedi magu amrywiaeth o fridiau dros y blynyddoedd, yn bennaf Henffordd/croes cyfandirol. Rhoddodd y penderfyniad i gaffael buches ACW gyfle i ni helpu i warchod a chefnogi goroesiad hirdymor y brîd unigryw hwn trwy roi ffocws penodol ar fridio a chynhyrchu cig eidion o'r ansawdd gorau.

Roedd hefyd yn golygu ein bod yn gallu dod â'r brîd hwn yn ôl i ororau Sir Faesyfed, rhan o'n hanes lleol a oedd wedi'i anghofio. Yn anffodus, ymddengys bod y dras lliw llaeth a chwrrw gwreiddiol a fu'n gysylltiedig â gwartheg Sir Faesyfed wedi cael ei gollu, ond gyda gwartheg newydd yn cael eu cyflwyno i'w cofrestru, mae gobaith bob amser!

Mae ein buches yn wyn o ran lliw yn bennaf ond o bryd i'w gilydd mae iddi liwiau eraill (cenglog, coch, glas, du, a chefnwyn). Rydym yn uned organig sy'n canolbwyntio ar safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid uchel. Mae ein holl stoc yn cael eu bwydo â glaswellt yn bennaf, dull sy'n gweithio'n dda gyda'r brîd hwn. Dros y blynyddoedd rydym wedi bod yn ymwneud â phrosiectau pori cadwraeth mewn cydweithrediad â dwy Ymddiriedolaeth Natur leol yng nghanolbarth Cymru, ac rydym hefyd wedi gweithredu 'buchi hedfan' ar dir preifat arall gydag amcanion tebyg. Mae gwydnwch y brîd yn caniatáu iddo ymdopi ag amgylcheddau caled a gaeafu yn yr awyr agored, sy'n ei gwneud yn anifail delfrydol at ddibenion o'r fath.

Mae gwartheg o'r fuches Mapledraig yn nodedig am eu natur addfwyn a'u rhwyddineb i'w trin, rhywbeth yr ydym wedi gweithio'n galed arno dros y blynyddoedd. Mae'r gwartheg hefyd yn famau ardderchog ac mae eu llo bywiog bob amser yn tyfu'n dda ar ansawdd a mesur y llaeth y mae eu mamau yn ei gynhyrchu. Fel gyda phob brîd brodorol mae'r twf yn arafach na brîd cyfandirol, ond credwn fod y cynnyrch terfynol o'r ansawdd uchaf o'r herwydd.

Rydym yn credu yng ngwerth y brîd hwn, ei rôl yn ein hanes amaethyddol a rhanbarthol a'r cyfleoedd y mae'n eu cynrychioli ar gyfer y dyfodol. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda RBST i wireddu'r uchelgais hon.

Buches Dyfi – rôl allweddol mewn pori cadwraeth - Helen Upson

Mae fy nghefndir ym myd pori cadwraeth, gan ddefnyddio da byw i wella cyflwr cynefinoedd arbennig – ac, yn fwy diweddar, rhai henebion cofrestredig. Yn masnachu fel Pori Bach, mae gen i drwyddedau pori dros dro gyda nifer o berchnogion tir ac mae'r rhan fwyaf o'm tir pori yn y glaswelltiroedd calchaid o amgylch Llanymynech, ger Croesoswallt. Mae'r trwyddedau a'r contractau hyn yn cynnwys gwaith helaeth gyda CNC, Cadw, Ymddiriedolaethau Natur lleol, yr RSPB, a llawer mwy.

Cysylltais â Chymdeithas Gwartheg Hynafol Cymru am y tro cyntaf yn 2019. Ar y pryd roeddwn i'n gweithio ar brosiect Celtic Rainforests LIFE lle'r oedd ein porwyr yn defnyddio gwartheg ucheldir yr Alban. Mewn diwrnod agored i ffermwyr, gofynnodd un o'r mynychwyr pam ein bod ni'n defnyddio gwartheg Albanaidd pan fyddai'r fuwch Gymreig yn gwneud llawn cystal - ac fe ysgogodd hynny fy ymchwil. Yn 2020 cymerais y naid a phrynais ddwy fuwch GHC gyflo â'u llo sugno, ac un heffer o werthiant gwasgaru buches.

Ar hyn o bryd pymtheg yw buches Dyfi, gan gynnwys tarw stoc a tharw ifanc. Mae gen i gymysgedd o GHC â gwregys coch, gwregys du, a chwbl wyn. Mae Keith, fy nharw pedigri yn goch a chenglog fel ei fam, ond mae ei chwaer Aethnen yn wyn. Nid yw pob un ohonynt o dras pedigri cofrestredig – rwy'n ychwanegu buwch gofrestredig o achau newydd yn achlysurol fel mae cyllid yn caniatáu, er mwyn ehangu'r amrywiaeth genetig o fewn y fuches a chyflymu'r cynnydd yn niferoedd y stoc pedigri.

Yn ddiweddar, rwyf wedi crynhoi'r fuches fridio ar diroedd yn ardal Llanymynech gydag anifeiliaid wedi'u diddyfnu yn cael eu hanfon i warchodfa'r RSPB yn Ynys-hir i'w pesgi a'u gwerthu fel cig eidion yn y pen draw. Rwy'n canolbwyntio ar system fewnbwn



minimal, hyblyg ac ystwyth sy'n darparu manteision i gynefinoedd yn ogystal â chig eidion rhagorol.

Byddaf yn cynnal nodweddion y brîd trwy eu profi mewn amodau amrywiol – mae angen iddynt ffynnu yn yr haul, mewn eira, ar glogwyni creigiog, ac mewn gwlypdiroedd. Rhaid i bob creadur aeafu allan, a byw ar bori a phorthiant glaswellt yn unig. Rydw i hefyd yn ystyried ac yn rhoi cynnig ar syniadau modern. Rydw i wedi defnyddio ffrwythloni artiffisial, rwy'n defnyddio systemau ffensio rhithwir, a chyn belled â bod yr heffer yn bodloni'r meini prawf twf rwy'n ei rhoi i'r tarw yn 2 oed.

Mae prif atyniadau GHC i mi yn cynnwys y ffaith eu bod yn anifail byr, cadarn a chigog, gyda digon o botensial tyfu er mwyn cynhyrchu cig eidion o ansawdd da. Ar yr un pryd maen nhw'n hawdd o ran lloia ac yn dal i ffitio yn fy nhrhelar!

Maent yn ffynnu ar dir garw – gan ddod o hyd i gysgod yn yr haf, yn tyfu cot drwchus yn y gaeaf ac yn pori ystod eang o blanhigion gan wneud pwysau da. Maent yn ddigon beiddgar i archwilio'r tir garw rydyn ni'n pori arno, ond nid ydynt yn dueddol o herio ffiniau.

O ran eu natur, maent yn gyffredinol dawel ac yn hamddenol o amgylch pobl. Mae hyn yn hanfodol gan fod gan fy holl leoliadau rywffaint o fynediad cyhoeddus, gyda neu heb gŵn. Mae hefyd yn helpu eu bod yn hawdd i'w trin. Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond fi sy'n gweithio gyda nhw yn y llociau, gydag un neu ddau o wirfoddolwyr llai profiadol i helpu o ran gweithredu fel gwyliwr diogelwch. Mae'r fuches ar y cyfan yn dilyn bwced ac yn gyflym yn dod i arfer â chael eu corlannu a'u hanfon drwy res. Maent wedi profi awyrennau'r Mach Loop yn hedfan uwchben, ffyrdd prysur a rheilffyrdd, ochr yn ochr â'r tir pori, ac maent wedi cael eu harwain a'u hebrwng yn hawdd ar draws pontydd llifogydd a chroesfannau gwastad.

Mae lloia wedi bod yn syml ac nid wyf wedi gorfod ymyrryd eto, heblaw am lo a gollwyd yn anffodus i firws Schmallenberg. Er fy mod yn cymryd y rhagofalon arferol, nid wyf wedi cael buwch sy'n lloia am y tro cyntaf yn dangos unrhyw ymddygiad ymosodol, ac nid yw

tagio'r lloi ychydig wythnosau yn ddiweddarach yn achos pryder.

Yn gyffredinol, mae'n well gen i wartheg gyda chyrn, gan eu bod yn eu defnyddio fel offer, i dynnu canghennau blasus o fewn cyrraedd, neu i gosi. Mae'r siapiau cynn a'r gwahanol liwiau eu blew yn ei gwneud hi'n hawdd iawn gwahaniaethu rhwng anifeiliaid unigol o fewn buches, sy'n wych ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a gwirfoddolwyr. Mae neges fel "mae'r yn goch a gwyn gyda'r cynn byr yn edrych yn gloff heddiw" yn llawer haws i'w dilyn na "mae un o'r gwartheg yna'n gloff".

Mae fy nyheadau ar gyfer buches Dyfi yn cynnwys cyflawni ardystiad Porfa am Oes, sicrhau gafael ar dir amaethyddol ar gyfer yr hirdymor, a meithrin enw da am gyflenwi cig eidion a stoc bridio o'r ansawdd uchaf. Fy ngobaith personol yw medru ailddarganfod rhai o'r amrywiadau lliw coll trwy'r rhaglen fridio. Fel newydd-ddyfodiad i ffermio, rydw i hefyd mewn sefyllfa ardderchog i helpu ceidwaid newydd GHC i ddysgu rhai gwersi dechreuol. Os bydd popeth yn iawn, byddaf yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas GHC yn ddiweddarach eleni yn ardal Llanymynech.

Buches Temple Bar – buches amryliw - Jenni Davies

Wedi ein lleoli yng Ngheredigion, gorllewin Cymru, mae ein buches ni yn fuches aml-liw o wartheg cenglog, gwynion a chochion. I ddechrau, daeth y fuches o werthiannau buchesi bridwyr sefydledig oedd yn ymddeol, buches Talwrn, Rob a Helen Clifton, a buches Dre-fach, Siân a Gareth Ioan.

Roedd gan y ddwy fuches hyn amrywiaeth o liwiau, rhywbeth yr ydym ni hefyd eisiau parhau. Rydym yn chwilio'n weithredol am liwiau prinnach Gwartheg Hynafol Cymru – Coch, Glas, lliw mwg a chefnwgin – ac yn ceisio bridio ar eu cyfer er mwyn cynyddu amrywiaeth y brîd a chryfhau'r gronfa genynnau ym mhoblogaeth GHC. Ein cenhadaeth yw sicrhau gwartheg cofrestredig o gymaint o'r chwe lliw ag y gallwn.

Cafodd fy ngŵr Teifi a minnau ein geni a'n magu ar ffermydd, ond dewisom yrfa mewn gwyddor llaeth (gwaith labordy), a dyna sut y gwnaethom gyfarfod. Yn yr 1980au fe wnaethom gymryd gofal am fferm deuluol Teifi yng Ngheredigion. Y brif fenter oedd buches odro, ac yna sefydlu siop fferm lwyddiannus – un o'r cyntaf yng Nghymru – a wnaethom ei rhedeg am 35 mlynedd cyn ymddeol yn 2018.

Roeddem bob amser wedi cadw gwartheg stôr ar gyfer cynhyrchu cig eidion, ond ar ôl cau'r siop, mae gennym bellach fwy o amser i'w neilltuo i'r ffermio ac rydym wedi cyflwyno buches sugno o wartheg GHC yma ar Fferm Temple Bar i redeg ochr yn ochr â'r fenter cig eidion ac ategu ato.



Mae'r Gwartheg Hynafol yn hawdd iawn i'w cadw, yn wydn ac fel arfer yn hapus i fod yn yr awyr agored drwy'r flwyddyn gron. Mae gan ein fferm gaeau llai, gwrychoedd uchel a llawer o lefydd naturiol i gysgodi – ac mae'r gwartheg yn sicr yn gwybod ble i 'guddio' er mwyn osgoi tywydd garw.

Mae'r gwartheg yn faint a siâp da ar gyfer cynhyrchu cig eidion, yn dawel eu natur, ac yn meddu ar reddfau mamol rhagorol. Mae hyd yn oed y teirw yn dangos diddordeb tadol ac yn aml yn gwylio dros y llo tra bod eu mamau yn bwyta.

Mae ganddynt y gallu i bori glaswellt llwm yn ogystal â phorfeidd cyfoes ac maent yn mwynhau dolydd gyda llysyfiant amrywiol, felly maent yn wych ar gyfer pori cadwraeth. Maent hefyd yn bwydo o'r gwrychoedd, gan eu cadw'n daclus ar gyfer bywyd gwyllt a blodau gwyllt.

Nawr, yn ein pedwaredd flwyddyn yn lloia, rydym yn dechrau gweld ein heffrod cartref hefyd yn ymuno â'r fuches, gyda'u llo cyntaf neu ail lo. Mae gennym rai teirw blwydd hefyd a fydd yn cael eu cynnig ar werth cyn bo hir. Mae GHC yn opsiwn hyfyw i ffermwyr heddiw, ond hefyd yn addas i ddechreuwyd.

Mae gennym 16 o wartheg bridio a tharw du cenglog Cymreig, ynghyd â saith heffer sy'n tarwa, pum tarw blwydd (gwyn a chenglog), a rhai gwartheg blwydd ar gyfer bridio a/neu gynhyrchu cig eidion. Wrth i mi lunio'r ysgrif hon mae lloia 2025 ar y gweill, gyda naw llo wedi cyrraedd hyd yn hyn a chymysgedd da o liwiau.

Buches Hafren – yn creu dyfodol cynaliadwy - Chris and Jessi Stephens

Rydym wedi ein lleoli ar lannau aber yr Afon Hafren, rhwng y ddwy bont Hafren enwog ger Cas-gwent, sy'n esbonio rhagddynodiad y fuches. Mae gennym fferm ar rent o 70 erw, sy'n gartref i oddeutu 35 o Wartheg Hynafol Cymru.

Cymerodd fy ngŵr Chris a minnau'r denantiaeth fferm yn 2023 a'n nod yw adeiladu system ffermio mewnbyn isel, adfywiol, awyr agored, gyda ffocws ar greu dyfodol cynaliadwy i'n busnes fferm teuluol.

Roedd y ddau ohonom yn gwybod y byddai brîd gwydn nad sy'n hawlio gormod o amser cynnal a chadw yn addas i'n system ni ac roedd hynny'n arbennig o bwysig wrth ddechrau ar ein tenantiaeth a gorfod jyglo swyddi y tu allan i'r fferm.

Cawsom ein denu at GHC, nid yn unig am yr elfen treftadaeth, ond hefyd am eu natur addfwyn, tawel pan fyddant yn cael eu gadael i fyw mewn amgylchedd naturiol. Maent yn effeithlon iawn wrth droi porthiant, gan ffynnu ar ein porfa o ansawdd cymharol isel lle gallai bridiau eraill gael trafferth cynnal eu cyflwr. Mae ein buches yn bennaf yn wartheg cenglog, gyda'r fuwch liw a gwyn achlysurol yn eu plith.


Dechreuon ni ein taith gyda'r gwartheg hyn drwy brynu buches gan deulu'r diweddar Anne Hardy o Swydd Gaerloyw. Roedd Anne, a fu farw yn anffodus yn 2022, wedi bod yn bridio'r gwartheg hyn ers 40 mlynedd. Roedd ei hanifeiliaid hi wedi treulio llawer o'u bywydau yn pori ar dir cyhoeddus ac roeddent yn addas iawn i'n fferm, gan fod Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg drwyddi.

Gan nad oes gennym adeiladau addas i gartrefu da byw, rydym yn cadw'r fuches allan trwy gydol y flwyddyn ac yn rhedeg system ffermio adfywiol. Hyd yn oed trwy fisoedd y gaeaf, maent yn ymdopi yn rhyfeddol o dda gyda chymharol ychydig o wair ychwanegol o'i gymharu â bridiau eraill ac nid ydynt yn sarnu'r ddaear.

Yn fuan ar ôl symud i'r fferm hon, fe wnaethom ehangu'r fuches drwy brynu grŵp arall o wartheg o orllewin Cymru i gyflwyno geneteg newydd. Rydym bellach yn gweithio i fridio teirw a heffrod o'r ddwy linell yn y gobaith o helpu i amrywio cronfa geneteg cyfyng y brîd prin ac arbennig hwn. Rydym yn ymdeimlo â'r cyfrifoldeb o ofalu am frîd mor brin. Y peth braf am gael pedigri a bridiau prin yw eich bod chi wir yn gwneud rhywbeth i'w hachub.



Hafren herd. Photo by Ruth Rees.



Hanes lliwgar

Mae gwartheg Cymreig wedi arddangos amrywiaeth o liwiau drwy'r oesoedd: ceir cyfeiriadau at wartheg gwyn â chlustiau coch yn llenyddiaeth gynnar Iwerddon yn ogystal â chyfreithiau Cymreig y brenin Hywel Dda yn y degfed ganrif.

Mae disgrifiadau o wartheg Cymreig, teirw yn arbennig, i'w cael yng nghywyddau beirdd Cymreig yr oesoedd canol, sy'n sôn am deirw duon â chynffonau gwyn, teirw coch Morgannwg a tharw trilliw o Lanbryn-mair. Sonniar am wartheg Sir Faesyfed o liw 'llaeth a chwrw', yn ogystal â gwartheg Morgannwg, gwartheg cochion a rhai ohonyn nhw ag wynebau gwynion. Yn wir, mae cofnodion o ffeiriau Gogledd Sir Benfro o tua 1600 yn sôn am 15 math o wahanol liw o'r gwartheg lleol sy'n cael eu gwerthu.

Roedd lliwiau'n aml wedi'u cyfyngu'n ddaearddol, gyda gwartheg duon yn amlwg ar Ynys Môn a Sir Benfro a gwartheg lliw mwg yn niferus ym mhenrhyn Llŷn. Crybwyllir gwartheg cochion ag wynebau llwydion yn aml yn Sir Drefaldwyn a'r Gororau ac roedd gwartheg llwydion yn gyffredin yn Nyffryn Banw. Roedd gwartheg gleision yn nodwedd o ardal Llanfair Caereinion; ac mae'n gred Gymreig eang bod cadw buwch las ymhlith y fuches odro yn cyfoethogi'r llaeth ac yn cadw'r tylwyth teg draw!

Roedd gwartheg cochion Morgannwg, a ystyriwyd yn frîd ar wahân, yn aml yn dangos nodweddion y cefngwyn. Yn Sir Feirionnydd, o bosibl o ganlyniad i Robert Vaughan o ystâd Nannau gyflwyno tarw Lakenvelder o'r Iseldiroedd yn y 19eg ganrif, datblygwyd straen o wartheg cenglog Cymreig. Mae'r llenyddiaeth hefyd yn cyfeirio'n eithaf cyffredin at wartheg brych, brech a broc.

Gyda sefydlu Cymdeithas Gwartheg Duon Cymru ym 1905, safonwyd gwartheg Cymru fel rhai nodweddiadol ddu. Cynyddodd y duedd gyda chyflwyno deddfau trwyddedu teirw yn 1914 a 1933 a gostyngodd yr amrywiaeth lliw ym muches genedlaethol Cymru yn raddol trwy gydol yr 20fed ganrif. Serch hynny, arhosodd rhywfaint o stoc lliw ar ffermydd anghysbell trwy gydol y ganrif – yn enwedig, teirw gwyn a chenglog na gofrestrwyd dan y ddeddf. Roedd genynnau lliw sy'n encilio i ddu hefyd yn parhau o fewn y fuches Gymreig yn gyffredinol. Mae'n debyg bod y gwartheg llwydion a brîd Morgannwg wedi eu colli erbyn heddiw ond mae chwe math o liw yn parhau: gwyn, cenglog, coch, cefngwyn, glas a lliw llygoden.

www.ancientcattleofwales.org